OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 708 (Cy. 139)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hepgoriadau o'r Gofrestr a Gyhoeddwyd) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Mehefin 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Mehefin 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *4 Gorffennaf 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 38(5)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hepgoriadau o'r Gofrestr a Gyhoeddwyd) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Gorffennaf 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "darparwr gwasanaeth" ("*service provider*") yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(c) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

mae i "gwasanaeth cartref gofal" ("*care home service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth llety diogel" ("*secure accommodation service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person sydd o dan 18 oed.

(**1**) 2016 dccc 2.

**Hepgor gwybodaeth o'r gofrestr a gyhoeddwyd o ddarparwyr gwasanaethau**

**3.** At ddibenion adran 38(5)(a) o'r Ddeddf caiff Gweinidogion Cymru hepgor o'r gofrestr a gyhoeddwyd o ddarparwyr gwasanaethau yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 38(2)(b) o'r Ddeddf mewn cysylltiad ag unrhyw gofnod yn y gofrestr sy'n ymwneud â man—

(a) y darperir gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ynddo;

(b) y darperir gwasanaeth llety diogel ynddo.

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mehefin 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 38 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Mae adran 38(1) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.

Mae adran 38(2) o'r Ddeddf yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn cofnod ar y gofrestr mewn cysylltiad â darparwr gwasanaeth.

Mae adran 38(5)(a) o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i hepgor gwybodaeth ragnodedig o'r gofrestr a gyhoeddwyd o dan amgylchiadau rhagnodedig.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r wybodaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei hepgor o'r gofrestr a gyhoeddwyd a'r amgylchiadau pan gânt wneud hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.